**AC-01-01(min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Ionawr 2001 |
| **Amser:** | 2pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Peter Law | Blaenau Gwent |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | Dafydd Wigley | Caernarfon |
| | Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Frank Grogan | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dave Powell | Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad Cenedlaethol |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**

**Papurau:** AC-01-01(p.1)

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Sicrhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Pregripsiynau* a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2000.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Mr Phil Parry | Cadeirydd, Pwyllgor Fferyllol Canolog Cymru |
| Mr Chris Martin | Is-Gadeirydd, Pwyllgor Fferyllol Canolog Cymru |
| Mrs Erica Barrie | Ysgrifennydd, Gweithrediaeth Gymreig Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr |
| Miss Ann Lewis | Ysgrifennydd a Chofrestrydd, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr |

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 12.7, cymerodd Lorraine Barrett le Ann Jones a chymerodd Janice Gregory le Lynne Neagle ar gyfer yr eitem hon. Cymerodd Owen John Thomas le Jocelyn Davies ar gyfer eitemau 1 i 3 ar yr agenda.

1.3 Atodir trawsysgrif air am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Hawliau Mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

2.1 Cymerodd Lynne Neagle a Kirsty Williams ran yn eitemau 2 i 4 ar yr agenda.

2.2 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Archwilydd Cyffredinol amlinellu'r materion a godwyd yn y papur a ddarparodd ar gyfer y Pwyllgor. Yr oedd Syr John wedi llunio'r papur fel ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau am ystod a graddau hawliau mynediad a'r deunyddiau y gallai ddod gydag ef i'r Pwyllgor. Yn arbennig, nid oedd yn archwilio awdurdodau lleol neu awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd ond roedd ganddo fynediad i lyfrau a chofnodion y cyrff iechyd.

2.3 Penodwyd Syr John fel archwilydd pob corff newydd a sefydlir o dan nawdd y Cynulliad ers y'i sefydlwyd.

Hefyd gwnaeth y Cynulliad bopeth o fewn ei allu i roi hawliau mynediad i Archwilydd Cyffredinol Cymru i wybodaeth pan ofynnai am hynny. Golygai hyn bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru bwerau gwell na'r rhai yr oedd ganddo yn ei rôl fel Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) yn Lloegr. Cyfyngwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol gan gyfyngiadau a osodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 1989. Golygai hyn na allai ef, fel y Comisiwn Archwilio y C&AG ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban, archwilio cwmnïau ag atebolrwydd cyfyngedig, hyd yn oed y rhai hynny a sefydlwyd ac a ddaliwyd gan y Cynulliad (er bod ganddo hawliau mynediad).

2.4 Hefyd roedd cyfle i wneud darpariaeth statudol ar gyfer hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol i gontractwyr mawr, derbynyddion grant ac ati. Roedd y Cynulliad wedi darparu mynediad i gwmnïau drwy gytundeb â'r cyrff dan sylw pan ofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol amdano, er enghraifft, mewn perthynas â phrojectau Menter Cyllid Preifat. Hefyd gellid rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus pe cynyddwyd ei bwerau i'w alluogi i archwilio cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y Cynulliad, yn hytrach na'i bwerau presennol sydd ond yn caniatáu iddo gael mynediad i'w cofnodion. Roedd gan sawl aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y cymwysterau i archwilio cwmnïau a'u harbenigedd wedi'i gydnabod yn broffesiynol.

2.5 Roedd yr Arglwydd Sharman wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar hawliau mynediad y C&AG. Roedd Syr John o'r farn y dylai'r un hawliau fod yn berthnasol drwy swyddogaethau archwilio sector cyhoeddus y DU. Roedd Syr John yn aelod o bwyllgor llywio yr Arglwydd Sharman ac yn gynharach yr wythnos hon cytunodd yr Aelodau Seneddol a gynrychiolir ar y pwyllgor hwn y dylid estyn pwerau archwilio archwilwyr y sector cyhoeddus. Gobeithiai Syr John y byddai yr Arglwydd Sharman yn nodi ei gefnogaeth yn ei adroddiad arfaethedig.

2.6 Byddai unrhyw newidiadau a gynigiwyd yn gofyn am newidiadau mewn deddfwriaeth yn San Steffan. Nid oedd newidiadau i'r Ddeddf Cwmnïau yn debygol o ddigwydd cyn diwedd 2001 gan fod y newidiadau archwilio arfaethedig yn rhan o adolygiad llawer ehangach o gyfraith cwmnïau. Fodd bynnag, roedd Syr John wedi hysbysu'r Adran Masnach a Diwydiant o'i bryderon yn ymwneud â'i bwerau archwilio. Mewn perthynas â chael gwell hawliau mynediad mewn perthynas â chontractwyr a derbynyddion grant yng Nghymru, byddai angen diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru hefyd.

2.7 Cytunodd yr aelodau eu bod yn dymuno cefnogi'r achos ar gyfer estyn pwerau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol a chynigiodd y Cadeirydd wneud cynrychioliadau i lywodraeth y DU i nodi hyn. Cytunodd Syr John i roi cyngor pellach i'r Pwyllgor unwaith y cyhoeddwyd Adroddiad Sharman.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur:** AC-09-00(min)

3.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

3.2 Ni ddymunai'r aelodau godi unrhyw faterion mewn perthynas â'r papurau i'w nodi ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio ar *Forglawdd Bae Caerdydd***

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod lle:*

*(vi) mae'r pwyllgor yn ymgynghori ar y casgliadau neu'r argymhellion o adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi;*

*neu yn paratoi i gymryd tystiolaeth gan unrhyw berson.*

4.2 Dymunodd Alison Halford gofnodi ei phryderon iddi gael ei gwahardd o ystyried yr adroddiad drafft yn unol â Rheol Sefydlog 12.7. Nododd y Cadeirydd bod y Rheol Sefydlog hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a chyn bo hir y byddai’r gofyniad i aelodau a oedd yn aelodau o bwyllgorau pwnc perthnasol gael eu gwahardd yn cael ei ddileu. Yr aelodau eraill na wnaethant gymryd rhan oherwydd y ddarpariaeth hon oedd: Dafydd Wigley, Peter Law ac Alun Cairns.

4.3 Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad drafft a chytunwyd ar ei gynnwys.

4.4 Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm.